

ISSN 2053-5171
Rhifyn 4
Gwanwyn 2014

Herio Materion Crefyddol

Mark Fox
ar Feddwl ar
ôl Marwolaeth?

Gareth Lloyd Jones
ar Jeremeia

Richard Bartholomew
ar Gabledd a
Rhydd Fynegiant

Adam Willows
ar Ydyn ni'n Fodau
Rhydd?

Herio Materion Crefyddol

Cefnogi Astudiaethau Crefyddol Safon Uwch a thu hwnt

Rhifyn 4 Gwanwyn 2014

Cynnwys

Meddwl ar ôl Marwolaeth? Deuoliaeth Sylwedd, Anfarwoldeb a'r Profiad o fod ar fin Marw Dr Mark Fox	2
Jeremeia Yr Athro Gareth Lloyd Jones	8
Cabledd a Rhydd Fynegiant Dr Richard Bartholomew	14
Ydyn ni'n Fodau Rhydd? Adam Willows	21

Golygydd

Professor Jeff Astley (Prifysgol Glyndŵr)

Golygydd Rheolaethol

Dr Tania ap Siôn (Prifysgol Glyndŵr, Canolfan y Santes Fair a Sant Silyn)

Ymgynhorwyr Golygyddol

Yr Athro Leslie J. Francis (Prifysgol Warwick)

Libby Jones (Canolfan Sant Silyn, Wrecsam)

Yr Athro David Lankshear (Prifysgol Glyndŵr)

Phil Lord (Arweinydd System, GwE)

Yr Athro Peter Neil (Prifysgol Bishop Grosseteste)

Dr Stephen Parker (Prifysgol Worcester)

Jenny Rolph (Prifysgol Glyndŵr)

Dr Paul Rolph (Prifysgol Glyndŵr)

Y Parchedig Mary Stallard (Canolfan Sant Silyn, Wrecsam)

Y Gwir Barchedig David Walker (Prifysgol Glyndŵr)

Yr Athro Michael West (Prifysgol Glyndŵr)

Dyluniwyd gan Phillip Vernon

Cyfieithiad gan Nant Roberts

Herio Materion Crefyddol

Canolfan y Santes Fair a Sant Silyn

Llys Onnen

Abergwyngregyn

Gwynedd

LL33 0LD

Ffôn: 01248 680131

E-bost: t.apsion@glyndwr.ac.uk

Gwefan: www.st-marys-centre.org.uk

Noddwyd gan Lywodraeth Cymru

Meddwl ar ôl Marwolaeth? Deuoliaeth Sylwedd, Anfarwoldeb a'r Profiad o fod ar fin Marw Creu

Mark Fox

Mae'r erthygl hon yn ceisio archwilio'r posibilrwydd fod y meddwl yn gallu goroesi marwolaeth, mae'n archwilio'r safbwynt athronyddol ynghylch deuoliaeth sylwedd gan gyfeirio'n benodol at brofiadau o fod ar fin marw.

Cyswllt manyleb: CBAC RS4 HE: Crefydd a'r Profiad Dynol (U2). Bywyd, Marwolaeth a Bywyd ar ôl Marwolaeth.

Credu mewn bywyd ar ôl marwolaeth

Er gwaethaf eu hamrywiaethau a'u gwahaniaethau, bron yn ddiethriad mae crefyddau'r byd yn cynnwys rhyw fath o gred mewn bywyd ar ôl marwolaeth. Mae ffurf y gred honno'n amrywio o grefydd i grefydd, ac yn cynnwys cysyniadau mor amrywiol ag atgyfodiad, ymgnawdoliad, a bodolaeth barhaol rhyw fath o enaid wedi'i ddi-gorffoli.

Ond beth fyddai'n ofynnol, yn achos y 'fi' sy'n ysgrifennu'r erthygl hon, er mwyn parhau i fodoli ar ryw ffurf y tu hwnt i'w fodolaeth gorfforol gyfredol yn y byd hwn? Yn y geiriau sy'n dilyn, fe geisiaf ateb y cwestiwn hwn, gan dynnu'n benodol ar fewnwelediadau o athroniaeth y meddwl a chyfeirio'n neilltuol a beirniadol at safbwynt y cyfeirir ato'n boblogaidd fel 'deuoliaeth sylwedd'.

Mae'n ymddangos yn eglur os ydwyf 'fi' i oroesi fy marwolaeth a pharhau mewn

rhyw fath o fodolaeth post-mortem fe fydd hyn angen rhyw fath o barhad digorff o'r synnwyr sy'n bodoli ohonof i fy hunan gyda'i holl feddyliau perthynol, atgofion, rhagdueddiadau personoliaeth a phrosesau meddyliol. Fe fyddai'r rhai hynny sy'n dymuno honni bod y meddwl yr un peth â'r ymennydd, wrth gwrs, yn gwrthwynebu ar unwaith unrhyw bosibilrwydd o'r fath: oherwydd os yw'r meddwl a'r ymennydd yn un, yna unwaith y mae'r ymennydd yn peidio â gweithio fe fyddai unrhyw fath o brosesau meddyliol a fyddai'n angenrheidiol i gynhyrchu synnwyr o'r hunan yn peidio â bod hefyd. Mae'n ymddangos yn eglur felly, er mwyn i unrhyw fath o fywyd parhau ar ôl marwolaeth, fe fyddai'n rhaid i'r 'fi' fod mewn rhyw synnwyr yn rhywbeth ar wahân i'r corff, ac yn abl i weithredu yn annibynnol ar y corff.

Meddwl ar ôl Marwolaeth?

Profiadau o fod ar fin marw

Yn y blynyddoedd diwethaf mae'r posibilrwydd hwn wedi cael cefnogaeth dystiolaethol ddichonadwy oddi wrth yr hyn sy'n cael eu galw'n brofiadau o fod ar fin marw (*near-death experiences* - NDEs). Mae adroddiadau eang ar brofiadau o'r fath i'w cael o fewn yr holl ddiwylliannau, ac mae'n ymddangos bod y profiadau'n digwydd pa un ai a yw'r un sy'n cael y profiad ag unrhyw fath o system gred grefyddol sy'n bodoli eisoes ai peidio. Yn digwydd yn ystod episod o farwolaeth glinigol amlwg, gyda phob arwydd hanfodol sy'n nodi bywyd yn ymddangos yn absennol, mae profiadau o'r fath yn nodweddiadol yn dechrau pan fydd yr unigolion yn sydyn yn canfod eu hunain yn 'hofran' uwchben eu corff sydd newydd farw. Yn dilyn hyn, mae'r digwyddiadau eraill sy'n cael eu nodi'n cynnwys synnwyr o fod yn symud trwy dywyllwch tuag at oleuni a theimlad o fod yn mynd i mewn i ryw fath o deyrnas dra-rhagorol. Mae'r dyfyniad sy'n dilyn yn rhan o dystiolaeth a ddarparwyd gan unigolyn wedi ei adfywio, ac mae'n cynnwys nifer o nodweddion sy'n nodweddiadol o brofiad un o fod ar fin marw .

All of a sudden I knew that I was dead. This realization struck me as odd. I hovered about twenty feet above my body, which was still on the operating table. I was surrounded by doctors who were talking to one another, but I didn't hear their voices. I also saw my husband waiting on a bench in a darkish room somewhere in the hospital. He was nervous. He was rolling a cigarette. From one moment to the next I found myself flying through a tunnel. It was extremely long, and I flew through it head-first.

The tunnel was virtually horizontal, but at a slight upward angle. It was about 10 feet in diameter. I heard a whizzing sound, like wind blowing past my ear, and in the distance I saw a bright light, which I was being sucked toward, but which still seemed a long way off. And all this time I felt scared, powerless, and lonely, because nobody knew that I was aware that I was dead. I wanted to either return or not be aware of my death. But clearly I had no choice in the matter. (Van Lommel, 2010, p. 29)

Os yw pob proses feddyliol yn ostyngedig yn y pen draw i brosesau ymenyddol, ac roedd yr un sy'n disgrifio ei phrofiad yma o ddifri yn glinigol farw, yna ni ddylai profiad o'r fath ddigwydd: oherwydd fe fyddai bod yn glinigol farw'n cynnwys marwolaeth yr ymennydd a chyda hynny fe fyddai pob proses feddyliol yn dod i ben. Er hynny, wrth edrych eilwaith ar yr adroddiad uchod, fe welwn fod prosesau meddyliol yn amlwg iawn yma: mae yma sylweddoli bod marwolaeth wedi digwydd, ynghyd â chanfyddiadau parhaus a theimladau o ofn, unigrwydd ac o fod yn ddi-rym. Ond y peth mwyaf rhyfedd efallai yw bod y profiad yn dechrau gyda'r cyfrannwr fel petai'n 'hofran' dros ei chorff yn gweld y doctoriaid, ac yna'n manylu ar yr hyn roedd hi'n gweld ei gŵr yn ei wneud – *He was rolling a cigarette* – rywle mewn rhan arall o'r ysbyty. Mae'n hynod o od hefyd ei bod wedi cofio'r profiad o gwbl: oherwydd erbyn hyn mae'n cael ei dderbyn yn gyffredinol bod atgofion yn cael eu 'gosod' yn yr ymennydd, ac felly ni ddylai hyn fod yn bosib mewn ymennydd sydd wedi darfod gweithio.

Meddwl ar ôl Marwolaeth?

Athroniaeth a deuoliaeth sylwedd

Efallai, felly, bod adroddiadau fel y rhain yn dangos nad yw'r meddwl a'r ymennydd yr un peth, a bod y meddwl, ar adeg marwolaeth, yn syml yn 'dianc' o'r corff ac yn parhau i fodoli, gan ganiatáu parhad cynnwys meddyliol amrywiol fel teimladau, canfyddiadau, ac atgofion. Fel mae'n wybyddus, mae sefyllfa o'r fath yn cael ei hategu'n eang gan lawer o grefyddau'r byd, ond yr hyn sydd heb fod mor gyfarwydd efallai yw bod i hyn hanes athronyddol cyfoethog hefyd. Yn llyfr deg *The Republic*, er enghraifft, mae Plato'n siarad am ryfelwr o'r enw Er, y credwyd ei fod wedi'i ladd ar faes y gad ac a daflwyd mewn camgymeriad ar goelcerth angladd i'w losgi. Ond, doedd Er ddim wedi marw, ac wedi iddo adennill ei ymwybyddiaeth roedd yn gallu disgrifio'n fanwl 'daith' i fyd arall lle daeth i gysylltiad ag eneidiau eraill a oedd naill ai'n marw neu'n disgwyl caei eu haileni.

Cynigydd athronyddol enwocaf y safbwynt nad yw meddyliau a chyrrff yr un fath, fodd bynnag, yw Rene Descartes, a oedd yn byw rhwng 1596 a 1650. Yn athronyddol, cyfeirir at ei safbwynt ef fel 'deuoliaeth Descartes' neu, yn Saesneg, fel *Cartesian dualism* ac mae'n amrywiad ar y safbwynt mwy cyffredinol a elwir yn 'ddeuoliaeth sylwedd': y syniad bod y meddwl a'r corff yn ontolegol wahanol, ac nid yr un peth o gwbl. Does dim tystiolaeth bod Descartes yn gyfarwydd â'r hyn a elwir gennym ni heddiw yn brofiad o fod ar fin marw. Yn wir, roedd ef yn athronyddol a gredai nad oedd profiad yn anad dim i fod yn rhywbeth i ymddiried ynddo - yr hyn y byddem ni'n ei alw heddiw'n athronyddol *rhesymolaidd*: hynny yw, un y mae rheswm - ac nid profiad - yn fodd sylfaenol iddo o ennill gwybodaeth

ynghylch beth sy'n real. Yn ei chweched *Myfyrdod*, mae Descartes yn darparu cyfres o 'arbrofion meddyliol' wedi'u llunio i ddarlunio trwy reswm yn unig nad yw'r meddwl a'r corff (yn cynnwys yr ymennydd) yr un fath. Mae'r arbrofion hyn yn gymhleth ac maen nhw wedi ennyn beirniadaeth athronyddol fanwl, ond yn eu hanfod mae Descartes yn gwahodd y darlennydd i fyfyrion ar y priodweddau a'r prosesau sy'n perthyn i'r meddwl ond sydd heb fod yn perthyn, nac yn bosibl iddyn nhw berthyn, i'r corff. Yn y ffordd hon mae'n ceisio dangos nad ydyn nhw, felly, yr un fath. Er enghraifft, mae'n dadlau ei bod hi'n amhosibl amau eich bod yn rhywbeth sy'n meddwl. Oherwydd wth amau hynny rydych chi, mewn difri, yn meddwl, ac felly'n cadarnhau'r union beth rydych chi'n ceisio'i amau. Mewn cyferbyniad, mae'n haeru y gallwch chi'n hawdd amau bod corff gennych chi. Mewn ffordd debyg, mae'n dadlau ei bod yn amhosibl dychmygu i ffwrdd eich hanfod fel bodolaeth sy'n meddwl, ond mae'n ddigon posibl dychmygu i ffwrdd eich corff. Yn y ffyrdd hyn a ffyrdd eraill, mae Descartes yn credu ei fod wedi darganfod priodweddau a gweithrediadau meddyliol sydd ddim yn cael eu rhannu â'r corff, ac felly nad yw'n bosibl dweud fod y meddwl a'r corff yr un fath. Ymhellach, mae Descartes yn diffinio'r corff fel bod yn meddu ar ymestyniad: hynny yw, yn meddiannu gofod. Mewn cyferbyniad, mae'n haeru bod *diffyg* ymestyniad mewn meddwl: ei hanfod yw meddyliau, a thra bod posibl dinistrio unrhyw beth sy'n meddu ar ymestyniad nid yw'n bosibl dinistrio rhywbeth sydd ddim yn meddu ar ymestyniad. Felly, yn ychwanegol at brofi bod y meddwl yn wahanol i'r corff, mae Descartes yn meddwl hefyd ei fod wedi profi tra bod y corff yn rhywbeth marwol

Meddwl ar ôl Marwolaeth?

sy'n bosib ei ddinistrio mae'r meddwl yn anfarwol ac oherwydd hynny'n amhosibl ei ddinistrio.

Gwendidau deuoliaeth Descartes

Felly, pa mor gryf yw'r dadleuon o blaid Deuoliaeth Sylwedd? Denodd dadl Descartes ei hun feirniadaeth gref hyd yn oed yn ystod ei fywyd ei hun. Gelwir un brif broblem sydd ynghylch ei safbwynt - a chyda safbwynt deuoliaeth sylwedd yn gyffredinol - yn 'broblem rhyngweithiad' (*problem of interaction*). Mewn geiriau syml: os yw'r corff a'r meddwl yn bethau hollol wahanol, fel mae deuolwyr sylwedd yn haeru, sut maen nhw'n rhyngweithio? Yn sicr, os yw'r ddau beth mor radicalaidd wahanol ag yr oedd Descartes yn tybio, gydag un yn meddu ar ymestyniad a'r llall ddim, sut felly y gallai'r enaid 'weithredu' ar y corff yn y fath ffordd fel y byddai'r corff yn gwneud yr hyn mae'n ei orchymyn? A sut mae'n bosib i'r hyn y mae'r corff yn ei ganfod trwy'r synhwyrâu gael eu trosglwyddo' i'r meddwl os yw'r ddau beth yn ddau beth hollol wahanol? Doedd Descartes byth yn gallu ateb y cwestiwn hwn yn foddhaol, ac fe gynigiodd sawl ateb cyn rhoi'r gorau iddi, mewn gwirionedd. Ar y dechrau fe gynigiodd bod y meddwl a'r corff yn rhyngweithio yn y chwârren bineol (*pineal gland*) yn yr ymennydd, gan haeru bod 'ysgafnder' neilltuol y chwârren a'i lleoliad yn ei gwneud yn fan cyfarfod delfrydol i'r meddwl a'r corff. Pan nodwyd fod y chwârren bineol, er mor ysgafn yw, yn dal i fod yn ymestyniad ac nad oedd yr 'ateb' yr oedd yn ei gynnig yn gwneud cyfiawnder â'r synnwyr nad yw corff yn rhyngweithio â'r meddwl ar un pwynt sengl ond yn hytrach drwyddo draw, fe gynigiodd ail safbwynt yn yr hwn roedd y meddwl a'r

corff yn cydgymysgu nid ar un pwynt ond drwyddo draw. Yn olaf - ac yntau, mae'n debyg, yn anobeithio dod o hyd i ateb i'r broblem o rhyngweithio - fe wnaeth Descartes ddatganiad mai dirgelwch, nad oedd neb ond Duw ei hun yn gwybod beth oedd yr ateb iddo, oedd hwn. Tra bod hynny'n wir efallai, nid yw prin yn ennill lle fel ateb i'r broblem. Mae'n wir debyg bod Descartes wedi methu dod o hyd i ateb digonol oherwydd bod ei ymraniad cyfan o'r meddwl a'r corff yn ddiffygiol.

Peth sydd yr un mor broblemus yn achos deuoliaeth sylwedd yw gwrthwynebiad empirig. Mewn geiriau syml: dydyn ni ddim yn rhesymol yn amau bod gennym gorff, ond nid yw'n bosib dweud yr un peth am y meddwl anghorfforol. Rydyn ni'n syml a hawdd yn gallu canfod ein corff trwy ein synhwyrâu. Ond allwn ni ddim gwneud hyn gyda'n 'meddwl digorff'. Trwy fod i bob pwrpas yn anweledig - neu ddim yn bosib ei ganfod trwy unrhyw un o'r synhwyrâu eraill - fe allen ni'n rhesymol amau a yw'r fath beth â meddwl yn bodoli o gwbl. Wrth gwrs, fe fyddai'n bosib gwrthwynebu hyn trwy ddweud hyd yn oed os yw'r meddwl yn 'ddim ond' ymennydd, mae ei wir gynnwys meddyliol hefyd yr un mor anweledig. Fodd bynnag, fe allai cefnogwyr y safbwynt bod meddwl ac ymennydd mewn rhyw synnwyr yn un, bwyntio at y gydberthynas ddiffiniedig sy'n bodoli rhwng ystâd feddyliol a phrosesau ymenyddol cyfatebol. Fe fyddai gwneud cyfiawnder llawn â'r materion ychwanegol hyn yn mynd â ni y tu hwnt i derfynau'r erthygl hon; ond mae amheuaeth yn parhau bod meddwl neu enaid anweladwy'r deuolwyr sylwedd angen rhyw fath o gefnogaeth empirig, ac mae'n seiliedig ar sylfaeni athronyddol gwan.

Meddwl ar ôl Marwolaeth?

Profiadau o fod ar fin marw a deuoliaeth sylwedd

A allai profiadau o fod ar fin marw fod yn darparu'r gefnogaeth sydd ei gwir angen ar ddeuoliaeth sylwedd? Fel rydyn ni eisoes wedi nodi, does dim prinder adroddiadau am brofiadau o'r fath, ac maen nhw'n cael eu nodi o fewn pob diwylliant gan ddilynwyr yr holl grefyddau ynghyd â chan rhai sydd heb fod yn dilyn unrhyw grefydd. Mae nifer o adroddiadau o'r fath yn cynnwys disgrifiadau sydd, mae'n debyg, yn fanwl gywir o'r amgylchoedd gan yr unigolion a oedd yn honedig ar wahân dros dro i'w corff, a byddai hyn, fe honnir, yn syml yn amhosib bod wedi eu disgrifio oni bai eu bod mewn gwirionedd mewn rhyw

synnwyr o fod yn ddigorff. Fodd bynnag, mae'r holl *arbrofion* sydd wedi ceisio lleoli gwrthrychau mewn theatrau llawdriniaethau mewn pwyntiau mantais sydd ddim ond yn bosib cael mynediad atyn nhw pe byddai'r unigolion ar wahân i'w corff, wedi methu deillio adnabyddiaeth gywir sengl. Amser a ddengys os bydd y sefyllfa hon yn newid. Am nawr, fe ymddengys bod deuoliaeth sylwedd yn safbwynt athronyddol problemus i'w ddal, ac mae'n parhau angen cefnogaeth brofiadol fwy nag y mae ymlynwyr wedi gallu ei darparu. Efallai y byddai goroesiad post-mortem o'r 'fi' yn absenoldeb corff sy'n gweithio yn ddibynnol ar rywbeth heblaw ei fodolaeth fel peth hollol ar wahân i fy ymennydd.

Geirfa

Empiriaeth: y safbwynt athronyddol y gall profiad ei hun ddarparu gwybodaeth ddibynadwy.

Ontolegol: yn ymwneud â natur bod. (O'r gair Groeg *ontos*, sy'n golygu 'bod'.)

Rhesymoliaeth: y safbwynt athronyddol y gall rheswm ei hun ddarparu gwybodaeth ddibynadwy.

Deuoliaeth sylwedd: y safbwynt athronyddol sy'n haeru bod y meddwl (neu'r enaid) yn bodoli'n annibynnol ar y corff.

Cysylltau

<http://iands.org/home.html> (The International Association for Near-Death Studies).

http://www.amazon.co.uk/Religion-Spirituality-Near-Death-Experience-Mark/dp/0415288312/ref=la_B001HQ4DZ4_1_2?s=books&ie=UTF8

http://www.amazon.co.uk/Religion-Spirituality-Near-Death-Experience-Mark/dp/0415288312/ref=la_B001HQ4DZ4_1_2?s=books&ie=UTF8 (&qid=1391469920&sr=1-2(Look inside: Mark Fox, Religion, Spirituality and the Near-Death Experience)).

Meddwl ar ôl Marwolaeth?

Pwyntiau trafod

1. Pa mor bell mae gwendidau deuoliaeth sylwedd yn difrodi cred yn anfarwoldeb yr enaid?
2. Ym mha ffyrdd y gallai profiadau o fod ar fin marw ddarparu cefnogaeth ar gyfer y safbwynt nad yw marwolaeth yn ddiwedd prosesau meddyliol?
3. A allai fod yn bosib llunio dadl arall ar gyfer deuoliaeth sylwedd sydd ddim yn rhannu gwendidau dadleuon Descartes?

Cyfeiriadau

Descartes, R. (1985). *The philosophical writings of Descartes Vol. I and II*. Tr. Cottingham, Stoothoff & Murdoch, Cambridge: Cambridge University Press.

Plato (1986). *The Republic*. Tr. D. Lee, Harmondsworth: Penguin.

Van Lommel, P. (2010). *Consciousness beyond life: The science of the near-death experience*. New York: HarperCollins.

Mae Dr Mark Fox wedi darlithio ac ysgrifennu'n helaeth ar themâu'n ymwneud â phrofiad crefyddol a goruwchnaturiol; mae ar hyn o bryd yn addysgu astudiaethau athronyddol a Chrefyddol yng Ngholeg King Edward VI, Stourbridge. Ef yw awdur Religion, spirituality and the near-death experience, London: Routledge, 2003 a Spiritual encounters with unusual light phenomena: Lightforms, Cardiff: University of Wales Press, 2008. Bydd ei lyfr nesaf, The fifth love: Exploring accounts of the extraordinary, yn cael ei gyhoeddi gan Spirit and Sage yn 2014.

Jeremeia

Gareth Lloyd Jones

Mae'r erthygl hon yn gosod neges Jeremeia yn ei chyd-destun hanesyddol a diwinyddol, yn nechrau'r chweched ganrif CC. Mae'n archwilio natur a phwrpas naratif yr alwad, yn rhoi sylwadau ar ddameg a berfformiwyd, yn ystyried y rhesymau dros natur farnedigaethol ei bregethu, ac yn dangos ei obaith am adferiad.

Cyswllt manyleb: CBAC AC3 BS: Astudio Astudiaethau Beiblaidd (U2), Adran A, 4. Proffwydoliaeth Ddiweddarach.

Cyd-destun Hanesyddol a diwinyddol **Ger afonydd Babilon**

Mae'r Hen Destament yn adrodd stori am yr Israeliaid yn erbyn cefnlen o bum ymerodraeth fawr: yr Aifft, Asyria, Babilonia, Persia, Groeg. Yn eu tro fe dra-arglwyddiaethodd pob un o'r grymoedd imperialaidd ar yr hen Ddwyrain Canol. Daeth y cenhedloedd llai yn ddarostyngedig iddyn nhw a thalu gwrogaeth iddyn nhw.

Erbyn y flwyddyn 605CC roedd y Babiloniaid, dan y Brenin Nebuchadnesar, wedi concro'r Asyriaid a gorchfygu Pharo'r Aifft mewn brwydr. Gwrthododd teyrnas Jwda, a oedd wedi ochri â'r Aifft, dalu gwrogaeth. Felly, yn y flwyddyn 598CC fe osododd Nebuchadnesar warchae ar Jerwsalem, a chymryd y brenin, Jehoiachim, i Fabilon gan benodi llywodraethwr

newydd. Ond parhaodd Jwda i wrthryfela. Fe ddychwelodd y Babiloniaid yn y flwyddyn 587CC. Y tro hwn fe wnaethon nhw daro ergyd dyngedfennol trwy ddinistrio'r Deml, dwyn ei thrysorau, dienyddio'r brenin, a dwyn hufen y boblogaeth i alltudiaeth ym Mabilon. Adroddir y stori am yr ymosodiad difrodol hwn yn Jeremeia 52. Dychwelodd Nebuchadnesar unwaith yn rhagor yn y flwyddyn 583CC i sicrhau'r gydran, ac ar ôl hynny nid achosodd pobl Jwda (yn awr yn cael eu hadnabod am y tro cyntaf fel 'Iddewon') unrhyw drafferthion pellach iddo.

Wedi ei eni i deulu offeiriadol o gwmpas y flwyddyn 650CC, gweinidogaethodd Jeremeia i bobl Jwda yn ystod y pymtheg mlynedd cythryblus hyn (598-583CC) sy'n nodi dechrau cyfnod arwyddocaol iawn yn hanes Iddewiaeth, cyfnod sy'n cael ei adnabod

Jeremeia

fel 'Cyfnod y Gaethglud'. Parhaodd y Gaethglud 50 mlynedd bron (587-538CC), ac yn ystod y cyfnod cafodd teuluoedd blaengar Jwda eu dal yn garcharorion ym Mabilon (gweler Salm 137). Roedd Jerwsalem yn adfail. Cafodd gweddill poblogaeth Jwda, yn ddi-arweiniad ac yn anobeithiol, ei chadw yn ei lle gan lywodraethwr Babilonaidd.

Pan yw diwinyddiaeth yn methu

Roedd y Gaethglud yn adeg o her a newid i'r Iddewon, nid yn unig yn wleidyddol ond hefyd yn ddiwinyddol. Roedd diwinyddiaeth draddodiadol yr Hen Israel yn cynnwys tair cred hanfodol sy'n cael eu crybwyll yn aml yn Llyfr y Salmau, llyfr emynau'r Iddewon, a gafodd eu tanseilio'n llwyr yn ystod y cyfnod hanfodol hwn.

- *Cenedl etholedig*. Ystyrid yr ymadawiad - yr exodus - o'r Aiffa a choncwest gwlad Canaan yn arddangosiad o gariad Duw dros ei etholedig bobl a'i rym dros y gelyn. Fe ddarbwyllwyd yr Israeliaid bod eu statws fel eiddo arbennig y Duw nerthol hwn yn golygu na fyddai unrhyw niwed byth yn dod i'w rhan. (Gweler Salm 105:43-44.)
- *Llinach dragwyddol*. Fe ddewisodd Duw Dafydd i olynu Saul yn frenin ar Israel. Oherwydd ei fod wedi gwneud addewid diamod y byddai'n ei warchod ef a'i ddisgynyddion, roedd y genedl yn credu y byddai Duw'n sicrhau y byddai'r frenhiniaeth yn parhau am byth. (Gweler Salm 89:35-36.)
- *Dinas gadarn*. Gwnaeth Dafydd Jerwsalem yn brifddinas iddo'i hun. Yna, fe adeiladodd Solomon y Deml fel tŷ i Dduw. Oherwydd presenoldeb Duw, roedd yr Israeliaid yn ystyried y

ddinas yn un gadarn. Ni fyddai unrhyw elyn byth yn ei chipio. (Gweler Salmau 46:4-5; 84:7; 99:2.)

Ar adegau o argyfwng glynodd Israel at y cyfryw athrawiaethau cadarnhaol. Ond yn awr roedd y genedl etholedig wedi cael ei halltudio, y teulu brenhinol wedi ei ddileu, y ddinas wedi ei hysbeilio a'r Deml wedi ei dinistrio. Roedd yn ymddangos fel petai Duw wedi troi ei gefn ar ei bobl. Ymhell o fod yn ffrind ac yn warchodwr ar Israel, roedd wedi dod yn elyn iddi. Ni allai'r Iddewon wneud synnwyr o'r ing yr oedd yn rhaid iddyn nhw ei oddef. Roedden nhw'n holi eu hunain: A yw Duw yn ddi-rym? A yw'n anwadal? A yw wedi marw? Os nag ydyw, pam roedd wedi torri ei addewidion? Fe arweiniodd methiant yr hen ddiwinyddiaeth at ddryswch ac anobaith. (Gweler Salm 44.)

Yr alwad i broffwydo: Jer. 1:1-19

Mae disgrifiad o'r alwad i broffwydo yn nodwedd gyfarwydd o'r llyfrau proffwydol (Dell, 2008, t.158). Caiff ei gofnodi er mwyn cyfiawnhau geiriau a gweithredoedd y proffwyd. Mae symbyliad dwyfol yn rhoi awdurdod i'w neges, yn arbennig felly pan yw ei bregethu'n ymadael â diwinyddiaeth draddodiadol, ac o ganlyniad yn cael ei ffafrio fawr ddim yn y gymdeithas (Brueggemann, 1997, t. 630).

Mae galwad Jeremeia yn rhannu elfennau cyffredin gyda naratifau galwad proffwydi eraill:

- *Neges: 1:10*. Mae'r naratif galwad yn ymgrynhoi'r ddwy brif thema sydd yn y llyfr: barn ac iachawdwriaeth. Cyfarwyddir Jeremeia i 'ddiwreiddio ac i dynnu i lawr, i ddifetha ac i ddymchwelyd'. Ei genhadaeth, fel un Amos, Hosea a Micha o'i flaen, yw

Jeremeia

pregethu barn. Mae'n ceryddu pobl Jwda am dorri cyfreithiau Duw. Ond nid dymchweliad yw'r gair olaf. Fe ddaw amser i adeiladu ac i blannu. Dilynir dinistr gan adfywiad. Nid yw'r dyfodol heb obaith.

- *Protest: 1:6-8, 17-19.* Protestia Jeremeia na ddichon iddo fod yn llefarydd Duw. Nid oes ganddo ddawn i lefaru'n gyhoeddus; ar un olwg nid yw ond plentyn. Mae'r diffyg hyder hwn yn galw i gof ymateb Moses (Ex. 3-4) ac Eseia (Eseia 6:1-5) sy'n gwrthwynebu galwad Duw, gan fynnu eu bod yn annigonol ac annheilwng. Ond fel yn achos ei ragflaenwyr, mae Duw yn gwrthod ple Jeremeia. Mae'n gwneud addewid i'w amddiffyn a rhoi'r nerth iddo i gynnal ei genhadaeth.
- *Gweledigaethau: 1:11-16.* Fel yn achos Amos, Eseia ac Eseciel, mae gweledigaeth yn chwarae rhan hanfodol yng ngalwad Jeremeia. Mae coeden cnau almon a chrochan yn cyflwyno'r ddelweddaeth ar gyfer ei neges. Mae'r dehongliad o'r symbolau yn tansellio'r hen ddiwinyddiaeth trwy fynegi penderfyniad Duw i gosbi ei bobl anufudd.

Pregethu barn

- Tra roedd yr arweinwyr crefyddol yn cwyno bod Duw wedi cefnu ar ei bobl, fe ddaeth Jeremeia i gasgliad gwahanol iawn. Hawliodd bod dinistr Jerwsalem wedi ei drefnu gan Dduw ei hun. Cosb ydoedd am dorri'r cyfamod, barn ddwyfol ar genedl bechadurus. I'r rhai hynny a oedd wedi cael eu magu ar y ddiwinyddiaeth draddodiadol, roedd ei eiriau'n anathema. Yn anochel daeth i wrthdrawiad â dau grŵp o bobl:
- *Swyddogion crefyddol.* Fe'i cyhuddodd hwy o eilunaddoliad. Fe'i

beirniadodd hwy am addysgu na fyddai'r ddinas byth yn cael ei chipio oherwydd presenoldeb y Deml ynddi, neu ragfynegi y byddai'r Gaethglud drosodd yn fuan. Fe suodd y gau broffwydi y bobl i gamsyniad o ddiogelwch trwy ddweud fod 'popeth yn iawn'. Sut gallen nhw ddweud hyn gan wybod nad oedd popeth yn iawn (6:14)? Fe gynghorodd y bobl i beidio ag ymddiried ynddyn nhw (7:1-15).

- *Swyddogion y wladwriaeth.* Er bod neges Jeremeia yn ei hanfod yn ysbrydol, roedd iddi ganlyniadau gwleidyddol. Mewn gwir draddodiad proffwydol, fe ymgyrchodd am gyfiawnder cymdeithasol. Fe gondemniodd yr awdurdodau am anwybyddu'r gorchmynion. Fe gyhuddodd y brenin o gybydd-dod a gormes (22:13-19). Oherwydd ei fod yn credu bod buddugoliaeth y Babiloniaid wedi ei harchddyfarnu gan Dduw, ac felly'n anochel, fe alwodd ar gadlywyddion y lluoedd arfog Iddewig i agor pyrth Jerwsalem er mwyn arbed y ddinas rhag cael ei dinistrio. Dim ond trwy wneud hynny y byddai Jwda'n osgoi trychineb (34:1-4).

Oherwydd mai cenhadaeth Jeremeia oedd cyhoeddi tranc diwinyddiaeth orchestfawr y gorffennol trwy ddatgan barn Duw ar y genedl a rhybuddio'r bobl eu bod yn byw ym mharadwys ffŵl, roedd yr elit llywodraethol yn gynddeiriog. Oherwydd ei agwedd negyddol tuag at addoliad yn y Deml, fe'i dedfrydwyd i farwolaeth am gabledd gan yr arweinwyr crefyddol (26:11). Er iddo osgoi cael ei ddienyddio, fe'i carcharwyd ef gan swyddogion y wladwriaeth ar gyhuddiad o deyrnfradwriaeth (38:1-6). Fe gynllwyniodd hyd yn oed drigolion ei bentref genedigol, Anathoth, i'w ladd (11:21). Roedd ei weinidogaeth gyfan yn

Jeremeia

cylchdroi o gwmpas y gwrthdrawiad hwn â'i gyfoeswyr.

Damhegion a berfformiwyd

Er mwyn pwysleisio'u neges, byddai'r proffwydi yn aml yn cyflwyno damhegion wedi eu perfformio neu'n cyflawni gweithredoedd symbolaidd. Cerddodd Eseia'n noeth trwy strydoedd Jerwsalem am dair blynedd er mwyn portreadu caethiwed yr Eifftiaid gan yr Asyriaid (Eseia 20:1-4). Eilliodd Eseciel wallt ei ben a'i adael yn dri phentwr er mwyn darlunio tynged Jerwsalem yn nwylo'r Babiloniaid (Esec. 5:1-4). Roedd y weithred yn fwy na dim ond cymorth gweledol i'w ddefnyddio i egluro pwynt. Roedd yn cynnwys gwirionedd. Credid y byddai'r act ei hun yn gallu achosi'r digwyddiad a oedd yn cael ei symboleiddio. Pe byddai'r neges yn ymwneud â dinistr, yna byddai'r difrod yn dechrau gyda'r ddameg fyddai'n cael ei pherfformio. Fe ddefnyddiodd Jeremeia'r dull hwn ar nifer o achlysuron. Gadewch i ni ystyried un enghraifft, honno am y gwregys lliain yn 13:1-11 (Stacey, 1990, tt. 131-138).

Mae Jeremeia'n prynu gwregys neu ddilledyn isaf ac yn ei wisgo. Wedyn, mae'n ei dynnu i ffwrdd a'i guddio ymhlith cerrig ar lan yr afon Ewfrates (Perath). Ymhen ychydig ddyddiau mae'n dychwelyd i'w adennill ac yn canfod ei fod wedi ei ddifetha. Rhoddir tri eglurhad o'r symbolaeth sydd ynghlwm wrth yr act yn adnodau 8-11:

- Symbol yw'r gwregys o gyfeillgarwch ac agosatrydd. Yn union fel y caiff gwregys ei wisgo'n agos at y croen, felly y bu Israel unwaith yn agos at Dduw. Yn ystod cyfnod cynnar ei hanes fe'i dilynodd ef yn ffyddlon. Fe rwymodd Duw hi, fel gwregys, wrtho'i

hun. Hi oedd y genedl yr oedd yn ei ffafrio.

- Symbol o anffyddlondeb ac anufudd-dod oedd y gwregys a ddifethwyd. Yn union fel yr oedd y gwregys a gymerwyd ymaith a'i adael i bydru, fe fyddai'r Iddewon yn mynd i ffwrdd yn alltudion y tu draw i'r afon Ewfrates. Oherwydd eu bod wedi cefnu ar Dduw, ac wedi gwrthod gwranddo arno, fe fydden nhw'n dihoeni mewn caethiwed.

Trwy gyfrwng y weithred symbolaidd hon mae Jeremeia'n cyhoeddi'n hollol glir y dynged a oedd yn aros Jwda. Gweler hefyd 13:12-14; 27:1-11; 28:10-17 i ddarllen am ddamhegion eraill gafodd eu hactio oedd yn symboleiddio barn.

'Cyffesion' Jeremeia

Oherwydd bod pob un o'r pregethau y byddai'n eu pregethu yn lledu'r bwlch rhyngddo ef a'i gyd-Iddewon, mae Jeremeia'n aml yn myfyrio ar ei boen a'i siomedigaeth ei hun. Mae'n brwydro gyda'i ffyddlondeb i'w alwad ac ymateb i'w ddymuniadau ei hun. Yn cael ei boeni gan amheuaeth, yn ynysig ac yn rhwystredig, mae'n mynegi ei anobaith ac mae'n herio Duw am ei alw. Digwydd hyn mewn chwe phennod: 11:18-23; 12:1-6; 15:10-11, 15-21; 17:14-18; 18:18-23; 20:7-18. Er bod y rhain yn cael eu galw'n 'gyffesion', cânt eu cyflwyno fel gweddïau. Mae eu cynnwys yn ymdebygu i salmau galarnad lle mae unigolyn yn cwyno wrth Dduw ac yn ceisio gwardigaeth (e.e. Salmau 3, 5, 6, 7).

Ceir nifer o nodweddion cyffredinol yn y mwyafrif o 'gyffesion' Jeremeia:

Jeremeia

- *Achos*. Mae achlysur yr alarnad yn amrywio, ond mae'n adlewyrchu peth trawma ym mywyd y proffwyd. Yn 12:6 mae'n ymboeni am ffyniant y drygionus. Yn 15:10 ac 20:14 mae'n galarnadu dros ddydd ei eni. Yn 15:18 mae wedi colli ffydd yn addewidion Duw. Yn 18:18 daw ei elynion â chyhuddiadau yn ei erbyn.
- *Dialedd*. Mae'r angerdd yn y modd y mae Jeremeia'n gweddio am ddial i'w weld yn fwyaf amlwg yn 18:21-23. Ond gweler hefyd 12:3; 17:18; 20:12.
- *Ymateb*. Mae Duw'n ymateb i'r alarnad ambell waith trwy gydnabod bod gwaeth i ddod (12:5-6), ac ambell waith trwy ei sicrhau o warchodaeth a chyfiawnhad o'i genhadaeth (15:19-21).

Mae'r rhannau hyn yn unigryw yn llenyddiaeth broffwydol yr Hen Destament. Daw gwedd breifat y proffwyd i'r amlwg yn hytrach na'r un gyhoeddus. Dyma gipolwg ar ei ddyddiadur personol. Ond mae'n anodd eu cysylltu ag unrhyw gyfnod neilltuol yn ei fywyd. Yn fwy na thebyg, maen nhw'n perthyn i gyfnod canol ei weinidogaeth, cyn cwmp Jerwsalem, pan ddaeth hi'n amlwg fod y bobl yn gwrthod gwrando arno.

Gobaith ar gyfer y dyfodol

Rydym wedi nodi dwy elfen yng ngweinidogaeth Jeremeia: negyddol a chadarnhaol. Heb amheuaeth, daw barn i'r amlwg fynyachaf yn y llyfr. Ond mae penodau 23-24 a 29-33 yn cynnwys neges o obaith. Caiff penodau 30-33 eu hadnabod fel 'Llyfr Diddanwch'. Oherwydd eu bod yn gwrth-ddweud gweddill y llyfr, mae rhai esbonwyr yn ystyried y rhannau hyn fel ychwanegiadau diweddarach, yn waith pobl eraill a oedd wedi datblygu pregethu Jeremeia yng nghyfnod y Gaethglud. Er

mai'r ateb tebygol yw eu bod yn gymysgfa o'r ddau, maen nhw'n dilyn thema sy'n ganolog i neges Jeremeia. Oherwydd er ei fod wedi cyhoeddi barn Duw, fe welodd tu hwnt iddi at adeg o adnewyddiad ac adferiad (Gowan, 1998, t. 115). Roedd trawma'r alltudiaeth yn ddrws i ddechreuad newydd. Roedd Israel wedi troi ei chefn ar Dduw, ond ni fyddai Duw yn troi ei gefn ar Israel. Mae dwy thema yn y penodau hyn yn haeddu sylw:

- *Cyfrifoldeb yr unigolyn*: 13:27-30. Er bod Duw wedi addo adferiad, roedd llawer yn amheus. Yn ddiau, dadleuent, roedd y genhedlaeth bresennol dan farn oherwydd pechodau eu hynafiaid. Onid oedd Duw wedi dweud y byddai'n cosbi'r plant hyd at y drydedd a'r bedwaredd genhedlaeth am bechodau eu tadau (Ex. 34:7)? Roedd y gred gadarn hon mewn cyfrifoldeb corfforaethol yn cael ei mynegi yn y ddihareb boblogaidd: 'Y tadau fu'n bwyta grawnwin surion, ond ar ddannedd y plant y mae dincod' (Gweler hefyd Esec. 18:2; Galarnad 5:7). Mae'r un syniad yn ymddangos yn y Testament Newydd. Ar un o strydoedd Jerwsalem, fe welodd Iesu ddyn a oedd yn ddall o'i enedigaeth. Gofynnodd ei ddisgyblion iddo: 'Pwy a bechodd, ai hwn ynteu ei rieni, i beri iddo gael ei eni'n ddall?' (Ioan 9:1-2). Gwrthododd Jeremeia'r syniad bod plant yn cael eu cosbi am droseddau eu cyndadau. Gwrthododd y ddihareb a mynegodd yn bendant y gallai cenhedlaeth newydd godi o'r lludw yn rhydd o bwysau'r gorffennol.
- *Cyfamod newydd*: 31:31-34. Cafodd y darn hwn ei ddisgrifio fel un o'r rhai pwysicaf yn llyfr Jeremeia, pinacl diwinyddol y broffwydoliaeth. Y cefndir hanesyddol yw cyfamod Sinai a wnaeth Duw ag Israel yn fuan wedi'r

Jeremeia

Exodus. Roedd ei barhad yn ddibynnol ar ufudd-dod y genedl. Nid yn unig roedd y bobl wedi methu cadw at y Gyfraith, roedden nhw'n ymddangos yn analluog o'i chadw. Gofyn Jeremeia'n bendant: 'A newidia'r Ethiopiad ei groen, neu'r llewpard ei frychni? A allwch chwithau wneud daioni, chwi a fagwyd mewn drygioni?' (13:23) Caiff y broblem ei datrys trwy gael cyfamod newydd yn yr hwn y bydd Duw nid yn unig yn rhoi

i'r genedl y cryfder ond hefyd yr awydd i gadw'r Gyfraith. Bydd pob un yn dod i adnabod Duw, trwy'r syniad o dderbyn ei arglwyddiaeth a gwneud ei ewyllys. Efallai mai'r rhan bwysicaf yw'r cymal olaf o adnod 34. Mae cymod ac adferiad yn bosib oherwydd bod Duw yn barod i faddau. Bydd yn cymryd y cam cyntaf i dorri'r troelliad diddiwedd o bechod a chosb trwy ganiatáu maddeuant. Duw gras yw Duw Israel.

Pwyntiau trafod

1. I ba raddau y mae swyddogaeth proffwyd yn meddiannu ei fywyd personol ac ysbrydol?
2. Sut mae Jeremeia'n ymateb i ddigwyddiadau hanesyddol?
3. Pam ac ym mha fodd mae Jeremeia'n gwneud y trawsnewid oddi wrth farn at addewid?

Cyfeiriadau

Brueggemann, W. (1997). *Theology of the Old Testament: Testimony, dispute, advocacy*. Minneapolis, Minnesota: Fortress.

Dell, K. (2008). *Opening the Old Testament*. Oxford: Blackwell.

Gowan, D.E. (1998). *Theology of the prophetic books: The death and resurrection of Israel*. Louisville, Kentucky: Westminster John Knox.

Stacey, W.D. (1990). *Prophetic drama in the Old Testament*. London: Epworth.

Mae'r Athro Gareth Lloyd Jones yn Athro Emeritus Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol, Prifysgol Bangor, Cymru. Mae'n awdur: The Discovery of Hebrew in Tudor England: A Third Language, Manchester: Manchester University Press, 1983; Robert Wakefield: On the Three Languages, Binghamton, New York: Renaissance Texts Series, Vol. 13, 1989; Lleisiau o'r Llundw: Her yr Holocaust i'r Cristion, Gee: Dinbych, 1994; The Bones of Joseph: From the Ancient Texts to the Modern Church, Grand Rapids: Eerdmans, 1997.

Cabledd a Rhydd Fyngiant

Richard Bartholomew

Mae'r erthygl hon yn archwilio pam y mae llywodraethau wedi llunio deddfau yn erbyn ymosodiadau ar grefydd, gan ddefnyddio Prydain fel yr enghraifft flaenaf. Mae'n dangos fod y consyrn wedi esblygu o amddiffyn crefydd fel sail ar gyfer trefn gyhoeddus i amddiffyn lleiafrifoedd crefyddol rhag cael eu difrio, ond bod tueddiadau diweddar wedi ysgogi ymgyrchwyr i haeru'r 'hawl i dramgwyddo'.

Cyswllt manyleb: AC3 CS: Astudio Crefydd mewn Cymdeithas Gyfoes (U2), 1. Crefydd a Materion Cyfoes

Cyflwyniad

Yn y 1760au, fe ddiffiniodd yr arbenigwr cyfreithiol William Blackstone, yn ei gyfrol *Commentaries on the Laws of England*, gabledd fel trosedd yn erbyn Duw a chrefydd,

... [an offence] against God and religion ... by denying [the Almighty's] being or providence, or by contumelious [i.e. insolent] reproaches of our Saviour Christ. Wither also may be referred profane scoffing at the holy scripture, or exposing it to contempt and ridicule. (Blackstone 1979 [1769], t. 59)

Roedd Blackstone yn rhesymu fod cabledd - ynghyd ag enghreifftiau o 'annuwioldeb affwysol' eraill fel rhegi anghysegredig neu weithio ar y Saboth - yn bethau yr oedd angen eu cosbi *pro salute animae* ('er diogelwch yr enaid') y

sawl oedd yn tramgwyddo, ac 'er mwyn dangos esiampl' i gymdeithas ehangach. Yn benodol, rhybuddiodd Blackstone mai heb y gred y byddai Duw'n dosbarthu gwobrwyon a chosbau yn y dyfodol, fe fyddai'r sail er mwyn sicrhau geirwiredd wrth roi tystiolaeth dan lw yn cael ei gwanhau neu hyd yn oed ei 'dymchwel' (Blackstone, 1979 [1769], t. 44).

Fel yna y mynegodd Blackstone gyfiawnhad rhesymol dros y ddeddf gabledd a fyddai'n synhwyrol oddi mewn i gyd-destun Oes y Goleuo: nid yw ei ddadansoddiad yn ardeisyf y posibilrwydd o achosiaeth oruwchnaturiol, lle mae cymdeithas sy'n goddef un sy'n cablu yn beryg o ddigio Duw. Dyna oedd y rhesymeg ynghlwm wrth y cod cyfreithiol a gasglwyd ynghyd dan yr Ymerawdwr Justinian o'r Ymerodraeth Rufeinig Ddwyreiniol (Bysantaidd) yn ystod y chweched ganrif, ac a fu'n

Cabledd a Rhydd Fynegiant

ddylanwad ar hanes Ewrop. Roedd Cod Justinian yn egluro bod angen cosbi achos o gabledd er mwyn atal Duw rhag peri newyn, daeargrynfeydd neu heintiau ddod i flino'r boblogaeth (Goodich, 2007, t. 56; Levy, 1995, t. 50). Yn achos Blackstone, roedd deddf cabledd yn amddiffyn gwir grefydd, a oedd yn ei thro yn amddiffyn cymdeithas rhag methiannau dynol a malais.

Cabledd a chyfraith ym Mhrydain

Cafodd Cristnogaeth ym Mhrydain ei hamddiffyn rhag cabledd gan ddeddf hyd at y flwyddyn 2008, er daeth natur yr amddiffyniad hwnnw yn gynyddol amgylchol yn ystod yr ugeinfed ganrif. Yn y flwyddyn 1797, carcharwyd llyfrwerthwr o'r enw Thomas Williams am gyhoeddi a gwerthu testun o'r enw *The Age of Reason*, gan yr actifydd gwleidyddol Thomas Paine. Duwydd oedd Paine, yn golygu ei fod yn credu yn y creawdwr Dduw ond nid mewn datguddiad crefyddol, ac roedd ei bamffled yn ymosod ar honiadau hanesyddol ac athrawiaethau moesol yr Hen Destament. Cafodd yr erlyniad yn erbyn Williams ei dwyn gerbron gan y *Society for Carrying into Effect His Majesty's Proclamation against Vice and Immorality*, cymdeithas a oedd wedi cael ei sefydlu gan yr actifydd yn erbyn caethwasiaeth, William Wilberforce (Levy, 1995, tt. 332-338), a digwyddodd hyn lai na deg mlynedd ar ôl y Chwyldro Ffrengig. Yr adeg honno roedd pryderon y byddai ymosodiadau ar grefydd yn arwain at yr un math o greulonderau treisiol a welwyd draw dros y Sianel, er bod dyn arall, Richard Carlisle, hefyd wedi ei farnu'n euog am gyhoeddi'r un gwaith yn y flwyddyn 1818.

Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg gwelwyd cyhoeddi llawer o

lyfrau a oedd yn tanseilio'r ddysgeidiaeth Gristnogol draddodiadol am y Beibl a dechreuad y byd. Fodd bynnag, yr agwedd gyffredinol oedd y dylid caniatáu ymholiad rhydd i grefydd, ond nid sarhad rhad. Ysgrifennodd arbenigwr cyfreithiol arall, Thomas Starkie, draethawd ar enllib ac athrod yn yr hwn yr oedd yn dadlau fod:

society [is] more than compensated for the partial and limited mischiefs which may arise from the mistaken endeavours of honest ignorance, by the splendid advantages which result to religion and to truth from the exertions of free and unfettered minds ... The law visits not the honest errors, but the malice of mankind. (Starkie, 1830, tt. 146–147)

Yn y flwyddyn 1882 carcharwyd rhyddfedyliwr o'r enw G. W. Foote am iddo gyhoeddi cartwnau a oedd yn gwatwar bywyd Iesu (Levy, 1995, t. 487), ac yn y flwyddyn 1922 dedfrydwyd John William Gott i lafur caled am gyhoeddi llyfrynnau gwrth-grefyddol a oedd yng ngolwg y barnwr yn debygol o gythruddo rhai i dorri'r heddwch. Yn benodol, tynnodd y barnwr sylw at ddarn lle'r oedd Gott yn cymharu Iesu i glown syrcas; roedd hyn mewn perthynas â'r darn o'r Beibl (Mathew 21:7) sy'n disgrifio Iesu'n marchogaeth asyn a llwdn ebol asyn (Lester, 2005, t. 223). Fodd bynnag, ni chafwyd erlyniadau pellach hyd at y flwyddyn 1977, pan ddygodd y wraig geidwadol, Mary Whitehouse, a ymgyrchai ynghylch 'chwaeth a gwedduster' erlyniad preifat yn erbyn *Gay News* am gyhoeddi cerdd rywiol eglur a oedd yn awgrymu mai gwrygydiwr oedd Iesu, a chanddo amryfal bartneriaid wedi bod. Derbyniodd y cyhoeddwr ddedfryd o garchar wedi ei

Cabledd a Rhydd Fynegiant

gohirio, a gwrthododd Tŷ'r Arglwyddi'r apêl. Wrth lefaru yn Nhŷ'r Arglwyddi yn y flwyddyn 1979, fe ddadleuodd yr Arglwydd Scarman y dylid ymestyn y deddfau cabledd ymhellach i amddiffyn crefyddau eraill.

The offence belongs to a group of criminal offences designed to safeguard the natural tranquillity of the kingdom. In an increasingly plural society ... it is necessary not only to respect the differing religious beliefs, feelings and practices of all but also to protect them from scurrility, vilification, ridicule and contempt. (Scarman, quoted in Lester, 2005, tt. 222–223)

Ddeng mlynedd yn ddiweddarach, roedd galwadau gan Fwslimiaid i erlyn Salman Rushdie am ysgrifennu nofel lenyddol a oedd yn cael ei chyfrif gan rai Mwslimiaid yn gableddus (Hare, 2010, t. 293).

O gabledd i 'gasineb crefyddol'

Cafodd y cynlluniau i ddiddymu'r ddeddf yn erbyn cabledd eu cyhoeddi yn y flwyddyn 2004. Fodd bynnag, ni wnaeth hyn nodi diwedd diddordeb y wladwriaeth i gwtogi ar rai mathau o elyniaeth i grefydd: eglurodd y Swyddfa Gartref i'r cyfryngau ei bod yn ystyried y newid fel rhan o 'gyd-destun ehangach' o drosedd newydd sef, 'annog gelyniaeth grefyddol' (dyfynnwyd yn BBC, 2004a). Nid oedd y wladwriaeth bellach â chonsyrn am 'drosedd yn erbyn Duw', na chwaith ynghylch defnyddio Duw fel 'plismon anweledig' i berswadio pobl i ddweud y gwir; yn hytrach, fel yr oedd Scarman wedi ei nodi fwy na deng mlynedd ar hugain yn flaenorol, roedd consyrn wrth reoli cymdeithas amlddiwylliannol lle mae crefyddau lleiafrifol yn gysylltiedig â grwpiau ethnig neilltuol.

Cafodd Deddf Casineb Hiliol a Chrefyddol ei chyflwyno yn y flwyddyn 2006, a chafodd y drosedd o gabledd ei ddiddymu dwy flynedd yn ddiweddarach. Fodd bynnag, yn syml, ni wnaeth y Ddeddf ychwanegu 'crefydd' i'r ddeddfwriaeth oedd yn bodoli yn ymwneud â hil; yn hytrach, roedd ganddi ei darpariaeth ddeddfwriaethol ei hun, a chyfyngwyd y drosedd i gynnwys yn unig eiriau 'bygythiol' (Hare, 2010, t. 296). Ymhellach ymlaen, roedd fersiwn terfynol y Ddeddf yn cynnwys yr amod eglur fod:

Nothing ... shall be read or given effect in a way which prohibits or restricts discussion, criticism or expressions of antipathy, dislike, ridicule, insult or abuse of particular religions or the beliefs or practices of their adherents, or of any other belief system or the beliefs of its adherents, or proselytising or urging adherents of a different religion or belief system to cease practising their religion or belief system. (dyfyniad o Hare, 2010, t. 296)

Ychwanegwyd hyn mewn ymateb i ymgyrch gan ddadleuwyr dros ryddfynegiant, yn eu mysg y comedïwr Rowan Atkinson, sydd â'i arferion comedïol wedi cynnwys sylwadau dychanol ar grefydd. Wrth annerch Tŷ'r Arglwyddi yn y flwyddyn 2005, dadleuodd Atkinson fod fersiwn gwreiddiol y Ddeddf yn:

promotes the idea that there should be a right not to be offended, when in my view, the right to offend is far more important than any right not to be offended, simply because one represents openness, the other represents oppression ... The Government claims that one would be allowed to say what one likes about

Cabledd a Rhydd Fynegiant

beliefs because the measure is not intended to defend beliefs but believers. But I don't see how you can distinguish between them. (Atkinson, 2005, t. 60)

Beirniadaeth bellach ar y Ddeddf oedd nad oedd yn glir o gwbl bod angen y fath fesur, o wybod bod Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 eisoes wedi gwahardd geiriau bygythiol, ymosodol, neu sarhaus neu ymddygiad o fewn golwg neu glyw unigolyn a fyddai'n debygol o ddiodesdef aflonyddwch, ofn, neu drallod - *'threatening, abusive, or insulting words or behaviour within the sight or hearing of a person likely to be caused harassment, alarm, or distress'*, a bod gwelliant y flwyddyn 2001 wedi ychwanegu 'cythruddo crefyddol' (*religious aggravation*) i'r drosedd hon. Ymhellach, mae deddfwriaeth yn erbyn anogaeth i elyniaeth hiliol yn gymwys yn achos crefydd pan yw ar gyfer cymuned ethnig: mae Iddewon a Sikhiaid wedi eu hamddiffyn yn benodol, ac mae'r llysoedd wedi dehongli'r term 'Mwslim' mewn amgylchiadau penodol fel un sydd wedi ei ddefnyddio'n hiliol mewn ffordd sy'n debyg i ddweud 'Pakistani' (Hare, 2010, t. 307).

Un achos o'r fath o 'aflonyddwch cythruddol crefyddol' oedd hwnnw ddaeth o flaen y llys yn nhref Carlisle yn y flwyddyn 2011, a oedd yn ymwneud â dyn oedd wedi llosgi copi o'r Qur'an yng nghanol y dref mewn protest yn erbyn Islam. Mewn cyferbyniad, cafodd chwech o bobl a losgodd gopi o'r Qur'an yng ngardd tafarn yn nhref Gateshead yn y flwyddyn 2010, a gosod fideo o hynny ar YouTube, eu harestio ond fe benderfynwyd na ddylid eu herlyn oherwydd nad oedd tystiolaeth ddigonol fod 'aflonyddwch, ofn neu drallod' wedi digwydd.

Amddiffyn teimladau

Mae'r mater o ryddfynegiant, cabledd a chasineb crefyddol yn lletach na dim ond datgan bod rhai datganiadau neu weithredoedd yn groes i gyfraith droseddol. Gall credinwyr (a rhai eraill sy'n cydymdeimlo) hefyd annog darlledwyr neu gyhoeddwyr i atal rhag lledaenu gwybodaeth am ryw waith neilltuol ar sail ei fod yn sarhaus. Yn y flwyddyn 1995, fe ddarlledodd Sianel 4 ffilm Hollywood ddadleuol o'r enw *The Last Temptation of Christ*, a oedd wedi cael ei gwneud saith mlynedd ynghynt, ond nad oedd erioed wedi ei dangos ar deledu ym Mhrydain. Roedd llawer o Gristnogion yn dehongli'r ffilm fel un a oedd yn awgrymu fod Iesu yn ysglyfaeth i bechod fel pob bod dynol arall, ac mewn llythyr at y *Times* cyflwynodd aelod o Dŷ'r Arglwyddi achos yn erbyn darlledu'r ffilm.

Such treatment of Christ is, to a Christian, as shocking and unacceptable as similar treatment of their husband or wife would be to anyone else who was happily married. This is why the often repeated comment, 'if you don't like it you can turn it off' really does nothing to make the broadcasting of such material acceptable. One does not have to stay in a room to hear one's wife slandered; but the fact of the slander is no less deeply offensive, and the injury to her reputation no less real, because it is uttered in one's absence. (Elton, 1995, t. 19)

Mae angen i drafodaethau ynglŷn â 'chred', 'teimladau', a 'throsedd' gadw'r cyd-destun emosiynol real iawn hwn mewn cof. Yn achos rhai traddodiadau crefyddol, mae sarhad honedig yn her sydd angen ei hateb: yn y flwyddyn 2004,

Cabledd a Rhydd Fyngiant

achosodd drama yn cyfleu cam-drin rhywiol a llofruddiaeth tu mewn i gurdwara (teml) Sikhaidd i gannoedd o Sikhiaid wrthdystio y tu allan i theatr yn Birmingham, gydag un protestiwr yn cael ei ddyfynnu'n gofyn, 'a fyddai unrhyw grefydd yn cymryd hyn?' (dyfynnwyd yn BBC, 2004b).

Yn achos Islam, gall y safbwynt hwn gymryd arno ôl-effeithiau rhyngwladol, gyda'r goddefgarwch canfyddedig o gabledd mewn gwlad Orllewinol yn cythruddo protestiadau a hyd yn oed trais dramor. Gwelwyd hyn mewn perthynas â'r ddadl ynghylch cartwnau Muhammad *Jyllands-Posten*, pryd y cyhoeddodd papur newydd Daneg bortreadau dychanol o'r proffwyd Muhammad yn y flwyddyn 2005 fel rhan o ddadl am ba un ai a oedd sylwebyddion yn hunan-sensorol ynghylch eu barn am Islam oherwydd ofn.

Yn y blynyddoedd diweddar, mae cenhedloedd Islamaidd wedi gofyn am amddiffyniad rhyngwladol i Islam trwy'r Cenhedloedd Unedig gyda chynnig ar y 'difenwi crefyddau' a ddygwyd gerbron gan yr OIC (*Organization of Islamic Cooperation*). Roedd y cynnig yn dadlau y gallai difenwi crefyddau ac anogaeth i goleddu casineb crefyddol yn gyffredinol, arwain at anghytgord cymdeithasol a throseddau yn erbyn hawliau dynol - The resolution argued that 'defamation of religions and incitement to religious hatred in general could lead to social disharmony and violations of human rights' a bod angen brwydro'n effeithiol yn erbyn difenwi pob crefydd, ac anogaeth i goleddu gelyniaeth grefyddol yn gyffredinol ac yn benodol yn erbyn Islam a Mwslimiaid - 'to effectively combat defamation of all religions and incitement to religious hatred in general and against Islam and Muslims in

particular' (United Nations Human Rights Council Resolution, 10/22).

Gwrthwynebwyd y Cynnig gan lawer o wledydd y Gorllewin ar sail rhyddfynegiant (Heneghan, 2012), ac oherwydd nad personau yw crefyddau ac felly ni ellir eu difenwi (er fel y gwelsom, mae Rowan Atkinson yn dadlau nad oes gwahaniaeth rhwng credoau a chredinwyr). Yn y flwyddyn 2011 rhoddwyd cynnig amgen gerbron, sef: 'Combating Intolerance, Negative Stereotyping and Stigmatization of, and Discrimination, Incitement to Violence and Violence Against, Persons Based on Religion or Belief'. Mae'r cynnig hwn (o Gyngor Hawliau Dynol, 16/18) yn condemnio unrhyw eiriolaeth dros gasineb crefyddol sy'n arwain at anogaeth i wahaniaethiad, gelyniaeth neu drais, ond mae ei gyngor i'r gwladwriaethau'n ymwneud â hyrwyddo dim gwahaniaethiad gan swyddogion, amddiffyn mynegiant crefyddol, ac ymgymryd ag 'addysg ac adeiladu ymwybyddiaeth'. Derbyniodd y dull hwn o weithredu gefnogaeth yr Unol Daleithiau a gwledydd Gorllewinol eraill.

Casgliad

Ysgrifennodd Blackstone ei eglurhad dros gael deddf newydd yn erbyn cabledd mewn cyfnod pryd y cymerwyd yn ganiataol y dylai gwir grefydd dderbyn amddiffyniad gan y wladwriaeth er budd y gymdeithas. Ym Mhrydain, nid dyna sut mae pethau bellach: yn gyntaf, gwnaethpwyd gwahaniaeth rhwng peidio â chredu mewn gwirionedd crefyddol a difenwi crefydd; ac yn ail, mewn cymdeithas sydd yn bennaf wedi mynd yn fwy seciwlar beth bynnag, nid oes fawr o bwrpas bellach i amddiffyn crefydd mewn perthynas â chynnal y drefn gyhoeddus. Fodd bynnag, mae

Cabledd a Rhydd Fynegiant

gennym ddeddfau ynglŷn â mynegiant llafar er amddiffyn enw da, rhag anlladrwydd, ac i warchod y drefn gyhoeddus: ac mae'r cysyniad o 'gasineb crefyddol' yn dangos consyrn ynghylch amddiffyn lleiafrifoedd crefyddol rhag difrïaeth. Mae gwledydd lle caiff cred

grefyddol ei gwarchod o hyd yn synnu, felly, pam *na* fyddem yn dewis hefyd amddiffyn credoau cysegredig rhag cael eu difenwi'n rhad.

Cysylltiadau

<http://www.richardwebster.net/abrief-historyofblasphemy.html> (A brief history of blasphemy).

<http://berkeleycenter.georgetown.edu/resources/topics/blasphemy-and-freedom-of-expression> (Blasphemy and Freedom of Expression: Resources on Faith, Ethics and Public Life at the Berkley Center for Religion, Peace, and World Affairs).

<http://www.religionlaw.co.uk/> (Religion Law UK).

<http://www.newadvent.org/cathen/02595a.html> (Blasphemy, *Catholic Encyclopedia*).

<http://old.shipoffools.com/Cargo/Features99/Features/Brian.html> (Comedy or Blasphemy, Ship of Fools).

<http://news.bbc.co.uk/1/hi/entertainment/7889974.stm> ('Satanic Verses' polarising untruths, BBC).

Pwyntiau trafod

1. Pam y credwch chi fod y deddfau yn erbyn cabledd ym Mhrydain wedi dirymu?
2. Pam y byddai'r Llywodraeth Brydeinig, yn y flwyddyn 2001, wedi teimlo'r angen i gyflwyno gwelliant ynghylch 'cythruddo crefyddol' i Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986?
3. A yw deddfau sy'n rheoli mynegiant mewn perthynas â chrefydd yn afreolaidd yn yr unfed ganrif ar hugain?

Cyfeiriadau

- Atkinson, R. (2005). The opposition's case: Speech to the House of Lords. In *Free expression is no offence: An English PEN Book* (pp. 59-63). E. L. Appignanesi, London: Penguin.
- BBC (2004a). Blasphemy laws set to be repealed
http://news.bbc.co.uk/1/hi/uk_politics/3752232.stm
- BBC (2004b). Theatre stormed in Sikh protest
http://news.bbc.co.uk/1/hi/england/west_midlands/4107437.stm
- Blackstone, W. (1799 [1769]). *Commentaries on the laws of England: A facsimile of the first edition of 1765-1769 volume 4: Public wrongs*. Chicago: University of Chicago Press (originally published at Oxford: Clarendon Press).
- Elton, R. (1995). Letter to the editor. *The Times* 12 June, p. 19.
- Goodich, M. (2007). *Miracles and wonders: The development of the concept of miracle, 1150-1350*. Aldershot: Ashgate.
- Hare, I. (2010). Blasphemy and incitement to religious hatred: Free speech dogma and doctrine. In *Extreme Speech and Democracy* (pp. 289-310). Ed. I. Hare & J. Weinstein, Oxford: Oxford University Press.
- Heneghan, T. (2012). West's free speech stand bars blasphemy ban: OIC, 15 October,
<http://uk.reuters.com/article/2012/10/15/uk-islam-blasphemy-idUKBRE89E18W20121015>
- Lester, A. (2005). Free speech, religious freedom and the offence of blasphemy. In *Free expression is no offence: An English PEN Book* (pp. 211-239). Ed. L. Appignanesi, London: Penguin.
- Levy, L.W. (1995). *Blasphemy: Verbal offense against the sacred, from Moses to Salman Rushdie*. Chapel Hill: University of North Carolina Press.
- Starkie, T. (1830). *Treatise on the law of slander and libel, volume 2*. London: J. and W.T. Clarke.

Mae Dr Richard Bartholomew yn meddu ar radd PhD mewn Astudio Crefydd. Roedd ei draethawd ar y diwydiant cyhoeddi a llyfrwerthu Cristnogol yn y D.U. yng nghydestun prynwriaeth grefyddol a chymuned gyfryngol. Mae ei gyhoeddiadau'n cynnwys cyfraniadau i arweiniad i grefyddau newydd o'r enw 30-Second Religion <<http://rights.ivypress.co.uk/resource/?pid=1948>> (gol. Russell Re Manning, 2011), ac mae blog ganddo ar grefydd a materion cyfoes.

Ydym ni'n Fodau Rhydd?

Adam Willows

Beth yw ewyllys rydd, ac a ydym yn meddu arno ai peidio, yw dwy o'r problemau mwyaf diddorol a pharhaus yn y meddylfryd athronyddol a diwinyddol. Mae'r erthygl hon yn trafod rhai o'r cwestiynau a'r syniadau allweddol sy'n ymwneud ag ewyllys rydd, yn cynnwys y ddadl ynghylch natur-magwraeth, rhagordeiniad, a phenderfyniaeth achosol.

*Cyswllt manyleb: CBAC AC3 PHIL: Astudio Athroniaeth Crefydd (U2), 4.
A ydym yn 'fodau rhydd'?*

Ewyllys rydd a gweithredu rhydd

They may take our lives, but they'll never take our freedom! Dyma gri heriol William Wallace yn y ffilm *Braveheart* yn 1995. A yw'n gywir? Ar un ystyr mae'n ymddangos bod Wallace yn amlwg yn anghywir. Mae sawl ffordd y gallai byddin y Saeson ei amddifadu o'i ryddid. Fe allen nhw goncro ei famwlad; ei garcharu; neu'n syml ei ladd. Ar ystyr arall, fodd bynnag, mae'n ymddangos ei fod yn gywir. Waeth beth wnaiff ei elynion, fyddan nhw ddim yn gallu ei orfodi i ddeisyfu'r un pethau â nhw na meddwl yn yr un ffordd ag y maen nhw'n meddwl. Yn y ffordd hon, fe fydd bob amser yn rhydd.

Mae'r ddau synnwyr hwn o ryddid yn dangos y gwahaniaeth rhwng rhyddid ewyllys a rhyddid i weithredu. Mae rhyddid yr ewyllys yn ymwneud â'r gallu i

wneud dewisiadau, i fod ag un cymhelliad neilltuol yn hytrach nac un arall. Mae rhyddid i weithredu'n ymwneud â'r gallu i roi'r dewisiadau hynny mewn grym, i wneud pa beth bynnag yr ydym yn cael ein cymell i'w wneud mewn gwirionedd (Albritton, 2003, tt. 408-423).

Er nad yw gweithredu rhydd ac ewyllys rydd yn union yr un peth, mae er hynny berthynas agos rhwng y ddau beth, ac erys a ydym yn gweithredu'n rhydd yn gwestiwn pwysig i ganfod a oes gennym ewyllys rydd. Mae hyn oherwydd ein bod angen ewyllys rydd er mwyn cael gweithredu'n rhydd. Er mwyn rhoi ein dewisiadau mewn grym (gweithred rydd) mae'n rhaid i ni allu gwneud dewisiadau yn y lle cyntaf (ewyllys rydd). Mae'n ymddangos yn glir mai rhannol ar y gorau yw ein rhyddid i weithredu. Weithiau mae pethau sydd y tu hwnt i'n

Ydyn ni'n Fodau Rhydd?

rheolaeth sy'n ein rhwystro rhag gweithredu'n union fel rydyn ni'n dymuno. Fodd bynnag, os na allwn *fyth* weithredu'n rhydd, yna awgryma hynny nad oes gennym ewyllys rydd. Dyna pam y gosodir cwestiynau am ewyllys rydd yn nhermau pa un ai a allwn ni weithredu'n rhydd ai peidio.

Cyfyngiadau ar ewyllys rydd: Natur a magwraeth

Rwyf wedi dweud eisoes mai rhannol yw ein rhyddid i weithredu: mae rhai pethau yn ein rhwystro rhag gweithredu yn y ffordd a ddewiswn. Mae hefyd bethau sydd yn ymddangos eu bod yn cyfyngu ar ein hewyllys rydd mewn modd cyffelyb. Mae'r drafodaeth natur-magwraeth yn canolbwyntio ar y ffordd mae ein genynnau a'n profiadau'n effeithio ar ein hymddygiad. Gall ein genynnau ein gwneud ni'n fwy tebygol o ymddwyn mewn ffordd benodol neu feddu ar nodweddion ymddygiadol neilltuol. Yn yr un modd gall ein hamgylchfyd - ein magwraeth, cymdeithas, gwlad, ac ati - ddylanwadu ar y ffordd yr ydym yn meddwl ac yn ymddwyn. Mae *Etifeddegwyr* yn dueddol o bwysleisio'r rôl sydd gan ein gwneuthuriad bywydegol yn yr effaith ar ein hymddygiad. Canolbwyntia'r *Amgylcheddwyr* ar effaith ein hamgylchoedd arnom. Mae'r naill ochr a'r llall yn derbyn fod y ddau beth yn chwarae rôl bwysig, ond yn anghytuno ar faint eu pwysigrwydd (Paul, 1998, tt. 81-91). Beth bynnag fo'r union berthynas rhwng etifeddeg a'r amgylchfyd, mae'n ymddangos yn glir eu bod gyda'i gilydd yn cael effaith arwyddocaol ar y ffordd yr ydym yn meddwl ac yn gweithredu. Hyd yn oed os oes ewyllys rydd gennym, efallai y bydd y ddau ffactor hwn yn ein rhagdueddu tuag at wneud dewisiadau

neilltuol, yn ei gwneud hi'n anoddach dewis gweithredu'n wahanol.

Cyfyngiadau diwinyddol ar ewyllys rydd: Pechod a rhagordeiniad

Weithiau rydym yn gwneud rhywbeth y gwyddom na ddylem ei wneud, neu hyd yn oed y byddai'n well gennym beidio â'i wneud. Gallwn deimlo ein hunain yn cael ein gorlethu gan wendid ein hewyllys neu demtasiwn fel ein bod yn ildio. Yn aml fe fydd hyn yn ffurfio arferion drwg, ac mae grym arferiad yn ei gwneud hi'n haws a haws parhau i wneud y pethau y byddem yn dymuno na fyddem yn eu gwneud. Yn ei *Gyffesion*, mae Awstin Sant yn sôn am y cyfyngiad hunanweithredol hwn ar ein hewyllys:

I sighed after such freedom, but was bound not by an iron [that is, fetters] imposed by anyone else, but by the iron of my own choice. The enemy had a grip on my will and so made a chain for me to hold me prisoner (Augustine, 1992, 8.5.10)

Gwêl Awstin bechod fel carchar ar ei ewyllys, felly ar ei ben ei hun nid yw'n gallu dewis gweithredu yn y ffordd iawn. Mae'n bendant o'r farn bod gennym ewyllys rydd, ond mae'n credu ei fod wedi ei ystumio a'i gyfyngu gan ein hymddygiad pechadurus fel na allwn bellach wneud rhai dewisiadau.

Os yw ein hewyllys wedi ei glymu gymaint gan bechod fel na allwn ddewis y peth iawn, mae angen i Awstin egluro beth sy'n digwydd pan fydd pobl yn dod i gredu yn Nuw. Sut felly maen nhw'n gallu gwneud y dewis da hwn? Yr ateb a geir gan Awstin yw bod y ddynoliaeth yn cael ei hachub rhag pechod gan ras. Golyga hyn mai rhodd rydd Duw yn unig, ac nid ymdrech ddynol, sy'n rhyddhau rhywun oddi wrth gaethiwed pechod.

Ydyn ni'n Fodau Rhydd?

Mae athrawiaeth rhagordeiniad yn datgan gan mai i Dduw ei hun yn unig mae'r dewis pa bobl sy'n cael eu hachub, yna mae'n ymddangos fod y rhai sy'n cael eu hachub wedi eu *rhagordeinio* gan Dduw i fod felly; sef bod Duw felly'n penderfynu rhag blaen pwy fydd yn cael ei achub. Anghytuno ag Awstin wnaeth diwinydd arall, Pelagius. Roedd ef yn meddwl fod bodau dynol yn rhydd i ddewis y da eu hunain, heb gymorth Duw. Nid yw pechod yn rhywbeth sydd yn ein llwyr gyfyngu, ac nid yw'r rhai sydd yn cael eu hachub wedi eu rhagordeinio i fod felly (McGrath, 1994, tt. 21-23). Cafodd y dadl ei nodweddu yn y ffordd ganlynol: mae Pelagius yn gadael mwy o le i ewyllys rydd, ond mae'n lleihau rôl Duw mewn iachawdwriaeth; mae Awstin yn rhoi rôl fwy canolog i Dduw, ond sy'n cyfyngu ar ewyllys rydd. Mae'r ffordd hon o edrych ar eu safbwyntiau'n rhy syml. Byddai Awstin yn mynnu fod gennym o hyd ewyllys rydd, a byddai Pelagius yn meddwl er ei fod yn gweld rôl Duw mewn iachawdwriaeth fel rhywbeth gwahanol i Awstin, nid yw wedi ei lleihau.

Penderfyniaeth

Hyd yn hyn, rwyf wedi edrych ar ffyrdd y gallai ein hewyllys rydd gael ei heffeithio neu ei chyfyngu i raddau mwy neu raddau llai. Yn awr rydym yn troi at safbwynt gan rai pobl sy'n credu nad oes posibilrwydd o ewyllys rydd o gwbl. Dyma *benderfyniaeth*: y safbwynt sy'n datgan, gan gymryd rhai rhag-amodau, fod pob gweithred yn anochel. Y modd yr oedd pethau'n digwydd yw'r unig ffordd y bydden nhw wedi gallu digwydd, a chaiff digwyddiadau'r dyfodol - yn cynnwys meddyliau a gweithredoedd dynol - eu penderfynu yn yr un modd.

Mae penderfyniaeth achosol yn datgan bod cwrs digwyddiadau wedi ei

benderfynu'n gyfan gwbl gan ddeddfau naturiol. Mae popeth sy'n digwydd yn cael ei ragflaenu gan achos. Rhaid i'r achos hwnnw ei hun gael achos, sydd hefyd ag achos, ac yn y blaen. Bydd deddfau Ffisegol yn penderfynu y bydd yr union achos bob amser yn cynhyrchu yr un effaith. Golyga hyn fod cadwyn achosiaeth wedi ei sefydlu'n gadarn. Mae popeth sydd wedi digwydd ac sydd yn mynd i ddigwydd yn ganlyniad anochel y digwyddiadau a ddaeth i fod cyn achosi'r digwyddiadau sy'n dilyn.

Mae'n ymddangos yn aml nad yw penderfyniaeth yn gwrthod y posibilrwydd o ewyllys rydd. Os yw popeth yn cael ei benderfynu ymlaen llaw, yna dydyn ni'n gwneud dim o'r penderfynu. Mae rhai meddylwyr, er hynny, wedi dadlau ei bod hi'n bosib cael ewyllys rydd hyd yn oed os yw penderfyniaeth yn wir.

Anghydnewsaeth a rhyddewyllysiaeth

Anghydnewsaeth yw'r safbwynt sy'n datgan os yw penderfyniaeth yn wir, ni all ewyllys rydd fodoli. Mae hyn yn bod oherwydd, yn ôl yr anghydawswyr, er mwyn meddu ar ewyllys rydd rhaid i ni allu gwneud rhywbeth gwahanol i'r hyn y byddwn mewn gwirionedd yn ei wneud; mae'n rhaid i ni gael dewisiadau. Dychmygwch fy mod mewn cyfyng-gyngor mewn bwyty: ydw i'n bwyta'r deisen neu'r hufen iâ? Os oes gen i ewyllys rydd, mae'n ymddangos fy mod o reidrwydd felly'n gallu dewis y naill neu'r llall. Mae'n bosib bod y dyfodol yn golygu fy mod yn bwyta teisen; mae'r un mor debygol y byddwn yn bwyta hufen iâ. Yr hyn fydd yn penderfynu'r mater yw fy newis rhydd.

Os yw penderfyniaeth yn wir, yna nid yw'r senario hon yn bosib. Gallwn drafod y ddau opsiwn, ond mae canlyniad fy

Ydyn ni'n Fodau Rhydd?

nhrafodaeth eisoes wedi ei setlo. Oherwydd bod y ffordd y dechreuodd y bydysawd sawl biliwn o flynyddoedd yn ôl, yr achos erioed yw y byddwn yn eistedd yn y fan hon, yn trafod ac yn y diwedd yn dewis y deisen. Nid oedd posibilrwydd byth y byddwn yn dewis yr hufen iâ. Yr hyn a benderfynodd y mater oedd y gadwyn achosol yn ymestyn yn ôl i gyfnod hirfaith cyn fy modolaeth 'i'.

Yn unol â phenderfyniaeth, mae'r dyfodol - yn cynnwys ein dewisiadau - eisoes wedi ei osod. Mae Anghydnawsyr yn meddwl bod angen y posibilrwydd o ddyfodol gwahanol ar gyfer ewyllys rydd. Maen nhw felly'n gallu cymryd un o ddau safbwynt gwahanol. Y cyntaf yw bod penderfyniaeth yn wir, ac nad oes gennym ewyllys rydd. Yr ail yw nad yw penderfyniaeth yn wir, ac felly mae gennym ewyllys rydd. Gelwir y safbwynt cyntaf weithiau'n *benderfyniaeth 'caled'*, ac mae'n safbwynt eithaf anarferol i'w ddal. Gelwir yr ail yn *rhyddewyllysiaeth*, ac mae'n safbwynt llawer mwy cyffredin.

Bydd safbwyntiau gwahanol rhyddewyllysiaeth yn canolbwyntio ar egluro sut mae ein hewyllys a'n gweithredoedd yn gweithio, os nad ydyn nhw'n rhan o system benderfynedig. Bydd rhai rhyddewyllyswyr yn ceisio egluro sut y gallai'r ewyllys gael ei diachosi heb fod ar hap; gelwir y rhain yn ddamcaniaethau anachosol. Dadleua rhyddewyllyswyr eraill mai ni sydd yn achosi ein hewyllys a'n gweithredoedd, ond mae hwnnw'n fath arbennig o achos sydd ddim ei hun yn cael ei achosi nac yn rhan o system benderfynedig. Gelwir

y rhain yn ddamcaniaethau asiant-achosol (O'Connor, 2013).

Cydnawsedd

Cydnawsedd yw safbwynt sy'n dal nad yw ewyllys rydd a phenderfyniaeth yn dirymu ei gilydd. Oherwydd bod cydnawseddwyr yn benderfynwyr er yn parhau i gredu mewn ewyllys rydd, cânt eu galw weithiau'n *benderfynwyr 'meddal'*.

Sut mae'n bosib i mi gael ewyllys rydd os yw'r cyfan o'm cymhelliannau a'm gweithredoedd yn y dyfodol eisoes wedi eu penderfynu? Mae gan gydnawseddwyr syniad gwahanol am yr hyn yn union yw ewyllys rydd. Maen nhw'n meddwl cyhyd â bod fy newisiadau yn achosi fy ngweithredoedd, yna rwy'n rhydd - hyd yn oed os yw fy newisiadau eisoes wedi eu gosod. Dewch yn ôl i'r bwyty. Mae'r cydnawseddwyr yn derbyn fy mod i'n bob amser wedi bod yn mynd i ddewis y deisen, ond yn nodi'r ffaith bod bwyta'r deisen yn dal i fod yn benderfyniad i mi. Rwy'n parhau i ystyried y ddau opsiwn ac yn dewis y deisen. Fy newis i, a dim arall, sy'n effeithio'r dyfodol. O'm hachos i y caiff y deisen ei bwyta.

Ar y ddealltwriaeth hon o ewyllys rydd, nid yw'n cyfrif na allaf wneud dim ar wahân i'r hyn a wnaf mewn gwirionedd. Yr hyn sy'n cyfrif yw bod yr hyn a wnaf yn benderfyniad i mi. Mae fy ngweithredoedd yn parhau'n rhan o'r gadwyn achosol, ond mae'r gadwyn honno'n rhedeg trwy fy ewyllys. Hyd yn oed os yw penderfyniaeth yn wir, fy ewyllys sy'n achosi i mi weithredu, ac felly rwy'n rhydd.

Ydyn ni'n Fodau Rhydd?

Ewyllys rydd a chyfrifoldeb moesol

Rhan o'r rheswm pam fod cwestiynau am ewyllys rydd mor bwysig yw eu bod yn cael effaith mawr ar gyfrifoldeb moesol. Roedd y berthynas hon rhwng rhyddid a chyfrifoldeb moesol yn bwysig iawn yn yr anghytundeb rhwng Pelagius ac Awstin. Ni allai Pelagius weld sut y gellir gosod y cyfrifoldeb am bechod ar ysgwyddau dynoliaeth os na allwn wneud daioni heb gymorth Duw. Roedd Awstin yn meddwl ein bod ni'n parhau i fod yn gyfrifol am ein gweithredoedd hyd yn oed heb ras ni allwn osgoi pechu.

Y gred arferol yw os ydym ni'n cael ein dal yn foesol gyfrifol am rywbeth, rhaid ein bod ag ewyllys rydd a gweithred rydd wrth ei wneud (Clarke, 1992, tt. 53-72). Mae hyn yn bod oherwydd os yw rhywbeth yn ddewis rhydd i ni, mae'n ymddangos ei fod yn dynodi fod gennym reolaeth drosto. Os oes gennyf reolaeth dros ddigwyddiad mae'n ei nodi fel fy un 'i' a gellir ei briodoli i mi: dyma yw ystyr cyfrifoldeb (Duff, 1998, para. 4). Er gwell neu waeth, mae'r digwyddiad dan sylw yn benderfyniad i mi.

Os nad yw gweithred yn benderfyniad fy ewyllys rydd, yna ni allaf fod yn gyfrifol amdani. Mae'r pwynt yma'n ffurfio'r sylfaen i feirniadaeth gyffredinol ar safbwynt y cydnawseddwyr. Mae llawer o feddylwyr yn dadlau bod disgrifiad cydnawseddwyr o ewyllys rydd heb fod yn ddigonol ar gyfer cyfrifoldeb moesol: hynny yw, nid yw'n caniatáu i ni reolaeth dros ein gweithredoedd. Os na allwn i fyth fod wedi gwneud unrhyw beth ar wahân i'r hyn wnes i o ddirif, yna nid oes gennyf reolaeth drosto, ac o'r herwydd nid wyf yn foesol gyfrifol.

Un ymateb i'r honiad nad yw ewyllys rydd y cydnawseddwyr yn caniatáu cyfrifoldeb moesol yw dweud mai'r hyn sydd o bwys ar gyfer cyfrifoldeb yw gwirfoddoldeb, ac nid y gallu i wneud fel arall (Pink, 2004, 74-79). Os yw fy ngweithred yn wirfoddol, mae'n golygu iddi gael ei hachosi gan fy newis i - hyd yn oed os na allwn fod wedi dewis unrhyw beth arall. Mae hyn yn ymddangos yn ddigon i alw'r weithred yn eiddo i mi, a'm gwneud i yn gyfrifol amdani.

Cyswllt

<http://www.iep.utm.edu/freewill/>

(*Internet Encyclopedia of Philosophy*: erthygl ar ewyllys rydd, yn cynnwys dadleuon o blaid ac yn

erbyn anghydnawsaeth a chydnawsaeth [fe allwch anwybyddu'r rhannau rhesymeg ffurfiol!])

Ydyn ni'n Fodau Rhydd?

Pwyntiau trafod

1. A yw'n deg dal rhywun yn gyfrifol am wneud rhywbeth y mae eu genynnau a'u hamgylchfyd yn ei gwneud hi'n fwy tebygol iddyn nhw ei wneud?
2. A yw syniad Awstin o ras yn cael effaith ar ewyllys rydd?
3. Os yw'r ffordd yr wyf yn gweithredu yn benderfyniad i mi, a yw o bwys a allwn i fod wedi gwneud rhywbeth arall ai peidio?

Cyfeiriadau

- Albritton, R. (2003). Freedom of will and freedom of action. In *Free will* (pp. 408-423). Ed. G. Watson, Oxford: Oxford University Press.
- Augustine. (1992). *Confessions*, Tr H. Chadwick. Oxford: Oxford University Press.
- Clarke, R. (1992). Free will and the conditions of moral responsibility. *Philosophical Studies: An International Journal for Philosophy in the Analytic Tradition*, 66, 53-72.
- Dilman, I. (1999). *Free will: An historical and philosophical introduction*. London: Routledge.
- Duff, R.A. (1998). Responsibility. In *Routledge encyclopedia of philosophy* (pp. 290-294). Ed. E. Craig, London: Routledge. <http://www.rep.routledge.com/article/L085SECT2>.
- McGrath, A. (1994). *Christian theology: An introduction*. Oxford: Blackwell.
- O'Connor, T. (2013). Free will. In *The Stanford Encyclopedia of Philosophy* (Spring 2013 Edition). Ed. E.N. Zalta. <http://plato.stanford.edu/archives/pr2013/entries/freewill/>
- Paul, D. (1998). *The Politics of heredity: Essays on eugenics, biomedicine and the nature-nurture debate*. New York: State University of New York Press.
- Pink, T. (2004). *Free will: A very short introduction*. Oxford: Oxford University Press.
- Strawson, G. (1998, 2011). Free will. In *Routledge encyclopedia of philosophy* (pp. 743-753). Ed. E. Craig, London: Routledge.

Ar hyn o bryd mae Adam Willows yn astudio ar gyfer gradd ddoethuriaeth (PhD) mewn diwinyddiaeth ym Mhrifysgol Durham.